Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiwn Dyfed Pension Fund



# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Y Strategaeth Weinyddu

Mawrth 2025

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys

Y Strategaeth Weinyddu .................... 3
Cyflwyniad .................... 3
Y Fframwaith Rheoleiddio .................... 3
Gweithdrefnau ar gyfer cydgysylltu ag Awdurdodau Cyflogi .................... 4
Gwybodaeth .................... 4
Lefelau perfformiad ar gyfer Awdurdodau Cyflogi .................... 6
Lefelau perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed .................... 7
Taliadau'r Awdurdodau Cyflogi i Gronfa Bensiwn Dyfed .................... 8
Dyddiadau Talu .................... 8
Taliadau Hwyr .................... 8
Y Dull Talu .................... 8
Hysbysiadau Talu .................... 8
Llog ar daliadau hwyr .................... 9
Sylwer .................... 9
Costau ychwanegol sy'n deillio o lefel perfformiad yr Awdurdod Cyflogi .................... 9
Cyfraddau Cyfraniadau'r Cyflogwyr a'r Costau Gweinyddol .................... 9
Adolygu'r Strategaeth .................... 10
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed .................... 10

# Y Strategaeth Weinyddu

Yn unol â'r rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi llunio Strategaeth Weinyddu sy'n ymwneud â gweithrediad effeithlon y Gronfa ar ran yr Awdurdodau Cyflogi a Chyngor Sir Caerfyrddin (fel yr Awdurdod Gweinyddu).

## Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn pennu'r trefniadau gweinyddu rhwng Cronfa Bensiwn Dyfed a'r Awdurdodau Cyflogi sy'n cyfrannu iddi. Nodau ac amcanion y ddogfen hon yw cynorthwyo gwelliant parhaus yn swyddogaethau gweinyddu'r Cynllun, a sicrhau bod egwyddorion 'Cod Ymarfer' y Rheoleiddwyr Pensiwn yn cael eu cymhwyso'n gyson. Cyflawnir hyn trwy gyflwyno fframwaith i wella a monitro llif data, darparu llinellau cyfathrebu clir, a gwneud rolau a chyfrifoldebau yn dryloyw, yn ogystal â bodloni gofynion datgelu.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn gyfrifol am weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran y Cyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Dyfed ar hyn o bryd. Mae'r Cyflogwyr hyn yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cynllun, naill ai fel Cyrff Rhestredig, Cyrff Dynodedig neu Gyrff a Dderbyniwyd.

## Y Fframwaith Rheoleiddio

Mae Rheoliad 59(1) o Reoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2013 (gweler Atodiad 1) yn galluogi Awdurdod Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i baratoi a chynnal 'Strategaeth Weinyddu'.

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2014
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007;
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008;
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2000;
- Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996.

a diwygiadau i'r rheoliadau uchod.

## Gweithdrefnau ar gyfer cydgysylltu ag Awdurdodau Cyflogi

Bydd y cyflogwr yn enwebu person i fod yn **Gynrychiolydd y Cyflogwr** a phrif gyswllt Cronfa Bensiwn Dyfed. Bydd y cyflogwr yn rhoi gwybod i Gronfa Bensiwn Dyfed pwy yw'r person hwnnw ac yn sicrhau bod Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei hysbysu am unrhyw newidiadau yn ddiymdroi.

Swyddog Awdurdodedig fydd y Cynrychiolydd Enwebedig uchod
sy'n golygu bydd y Gronfa yn derbyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau a anfonir gan yr unigolyn hwnnw. Yn ogystal, dim ond Swyddogion Awdurdodedig y mae gan y Gronfa eu henwau, eu manylion cyswllt a'u llofnodion enghreifftiol all lofnodi neu anfon dogfennau a/neu gyfarwyddiadau i'r Gronfa oddi wrth y cyflogwr. Ni dderbynnir dogfennau neu gyfarwyddiadau nad ydynt wedi'u llofnodi, nad oes ganddynt oruchwyliaeth glir gan Swyddog Awdurdodedig, neu nad ydynt wedi'u hanfon gan Swyddog Awdurdodedig.

Bydd yn rhaid i gyflogwyr gadarnhau'n rheolaidd pwy yw eu Swyddogion Awdurdodedig a sicrhau bod y Gronfa'n cael gwybod am newidiadau'n barhaus.

### Gwybodaeth

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn cydgysylltu ac yn cyfathrebu â'r awdurdodau cyflogi mewn amryfal ddulliau i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu bodloni'n gyson.

Ymhlith yr amryfal ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan y Gronfa mae:

- Gwefan Cronfa Bensiwn Dyfed; sy'n cynnwys adran benodol ar gyfer pob rhanddaliwr ac ar gyfer awdurdodau cyflogi y Gronfa.
- Newyddlenni rheolaidd; a anfonir at bob un sy'n aelod o'r cynllun a'r holl awdurdodau cyflogi. Mae'r newyddlen yn cael ei chyhoeddi drwy wasanaeth Fy Mhensiwn Ar-lein a'i hanfon yn uniongyrchol i gyfeiriad cartref pob person nad yw'n ddefnyddiwr, yn ogystal â chael ei chyhoeddi ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.
- Gweithdai Ymsefydlu a Chyn Ymddeol; a gynhelir yn ôl y galw i hybu dealltwriaeth y cyflogwyr ac aelodau'r cynllun.
- Cymorthfeydd pensiwn, ar gyfer aelodau'r cynllun ar gais y cyflogwr i ddatrys unrhyw fater neu faterion sy'n peri pryder i'r aelodau.
- Gwybodaeth ddiweddar ar e-bost; a anfonir yn uniongyrchol at gynrychiolwyr cyflogwyr i hysbysu am unrhyw ddatblygiadau yn y cynllun neu'r dull o'i weinyddu.

- Seminarau diweddaru a grwpiau hyfforddi ar gyfer cyflogwyr; a gynhelir yn ôl y galw i adolygu datblygiadau'r cynllun neu i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddi.
- Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol; a gynhelir i adolygu buddsoddiadau a gweithgareddau gweinyddol Cronfa Bensiwn Dyfed yn y 12 mis blaenorol, ac i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r Gronfa yn y 12 mis nesaf.
- Bydd cynrychiolwyr cyflogwyr yn dosbarthu gwybodaeth am Gronfa Bensiwn Dyfed i aelodau'r cynllun o fewn eu sefydliad, hynny yw canllawiau'r cynllun, ffeithlenni ac ati.
- Adroddiad blynyddol, a gyhoeddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed i ddangos i ba raddau y mae'r Gronfa a'r Awdurdodau Cyflogi wedi cyrraedd y lefelau perfformiad a bennwyd yn y strategaeth hon ac unrhyw faterion eraill sy'n deillio o'r strategaeth gweinyddu pensiynau fel y bo'n briodol.
- Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnal cyfarfodydd chwarterol. Mae'r cyfarfod hwn yn rhoi sylw i faterion gweinyddu a buddsoddi. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr ar gyfer yr holl grwpiau rhanddeiliaid, Cyflogwr, Pensiynwr, Aelodau Gweithredol/Gohiriedig. Mae'r Bwrdd yn cynorthwyo Awdurdod Gweinyddu Cyngor Sir Caerfyrddin fel 'Rheolwr y Cynllun' i -
    - Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw deddfwriaeth arall mewn perthynas â llywodraethu a gweinyddu'r CPLlL;
    - Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; a
    - Sicrhau bod Rheolwr y Cynllun yn llywodraethu ac yn gweinyddu'r CPLlL yn effeithiol ac yn effeithlon.

Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol ar wefan y Cyngor, Manylion y Pwyllgor - Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn ystyried ac yn cytuno ar benderfyniadau strategol y Gronfa yn unol â'i chylch gorchwyl.

Cyhoeddir cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar wefan y Cyngor,

Chwilio cyfarfodydd - Pwyllgor y Gronfa Bensiwn - Manylion y Pwyllgor - Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed

- Mae Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwylio cyfuno buddsoddiadau'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd yng Nghymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un aelod etholedig a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Cyhoeddir cofnodion y Pwyllgor ar wefan yr awdurdod cynnal yn Manylion y Pwyllgor - Partneriaeth Pensiwn Cymru

## Lefelau perfformiad ar gyfer Awdurdodau Cyflogi

Rhaid i'r cyflogwr roi hysbysiadau (neu rybuddion amgenach cymeradwy) i Gronfa Bensiwn Dyfed fel a ganlyn:

- Dechreuwyr Newydd - cyn pen 1 mis ar ôl i'r gweithiwr ymuno â'r cynllun.
- Newidiadau yn Amgylchiadau'r Aelod - cyn pen 1 mis ar ôl i hynny ddigwydd.
- Ymadawyr Cynnar - cyn pen 1 mis ar ôl i'r gweithiwr adael y cynllun.
- Hysbysiadau Ymddeoliad - rhaid eu cael cyn pen 1 mis o'r dyddiad cânt eu talu ddiwethaf.
- Marwolaeth mewn Swydd - cyn pen wythnos wedi marwolaeth yr aelod.

Bydd cyflogwyr yn rhoi copi o'r canllawiau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Gweithwyr i bob cyflogai newydd sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun pensiwn cyn pen deufis wedi iddo gael ei gyflogi.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 yn ei gwneud yn ofynnol fod aelodau sy'n ymddeol cyn Oedran Pensiwn Arferol yn cael eu buddion cyn pen deufis ar ôl ymddeol, ac yn achos aelodau sy'n ymddeol ar ôl Oedran Pensiwn Arferol, cyn pen mis ar ôl y dyddiad ymddeol.

Bydd cyflogwyr yn rhoi adroddiad data i Gronfa Bensiwn Dyfed o'r sefyllfa ar 31 Mawrth bob blwyddyn ar ffurf gymeradwy, a hynny ddim hwyrach na 30 Ebrill yn yr un flwyddyn, neu'r diwrnod gwaith nesaf.

Bydd y cyflogwr yn sicrhau y caiff cyfraniadau'r aelodau a'r cyflogwyr eu didynnu ar y gyfradd gywir, gan gynnwys cyfraniadau sy'n ddyledus yn achos absenoldeb am dâl is neu absenoldeb di-dâl, absenoldeb mamolaeth, ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol y bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn gofyn i'r cyflogwr eu casglu.

Mae'r cyflogwr yn gyfrifol am arfer y pwerau dewisol a roddir i gyflogwyr gan y rheoliadau. Hefyd, mae'r cyflogwr yn gyfrifol am gyhoeddi ei bolisi mewn perthynas â'r elfennau dewisol allweddol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, ar gyfer ei weithwyr a'r awdurdod gweinyddu.

Bydd y cyflogwr yn llwytho data i i-Connect cyn pen 5 diwrnod ar ôl y dyddiad y daw'r cyfnod misol i ben.

NID yw Cronfa Bensiwn Dyfed yn gyfrifol am ddilysu cywirdeb unrhyw wybodaeth a roddir gan y cyflogwr at y diben o gyfrif buddion o dan ddarpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Rheoliadau Taliadau Dewisol. Y cyflogwr sy'n gyfrifol am hynny.

Os codir dirwy ar Gronfa Bensiwn Dyfed gan y Rheoleiddiwr Pensiynau caiff y tâl ei basio ymlaen i'r cyflogwr perthnasol os mai gweithred y cyflogwr hwnnw neu ei fethiant i weithredu (e.e. methiant i hysbysu am ymddeoliad cyn pen y terfynau amser a nodir uchod), a achosodd y ddirwy.

O dan Ddeddf Diogelu Data 2018, bydd y cyflogwr yn gochel rhag datgelu'n amhriodol unrhyw wybodaeth am aelod a gynhwysir (lle bo hynny'n briodol) ar unrhyw eitem a anfonir oddi wrth Gronfa Bensiwn Dyfed. Hefyd, bydd ond yn defnyddio gwybodaeth a gyflenwir neu a ddarperir gan Gronfa Bensiwn Dyfed at ddibenion gweithredu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Lefelau perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn dosbarthu ffurflenni, newyddlenni, llyfrynnau ac unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu'r Cynllun.

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn cynorthwyo cyflogwyr i weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol drwy:

- darparu i gynrychiolwyr wybodaeth a chymorth ynghylch y cynllun a'r modd y caiff ei weinyddu;
- dosbarthu gwybodaeth dechnegol reolaidd i'r cynrychiolydd/cynrychiolwyr perthnasol.

Drwy gydweithio â'r cyflogwyr, mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn anelu at:

- talu'r grant ymddeol (cyfandaliad) i gyfrif banc yr aelod DIM hwyrach na **10 diwrnod** ar ôl cael data terfynu cywir gan y cyflogwr perthnasol (os nad oes gan aelod gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol fewnol).
- derbyn y gyfradd cyfraniadau aelodau a gyfrifir gan y cyflogwr.

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn paratoi datganiad o fuddion yr aelodau bob blwyddyn erbyn **31 Awst,** lle mae'r cyflogwr wedi cyflwyno data ariannol defnyddiol a chywir erbyn **30 Ebrill.**

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn llunio datganiadau cynilion pensiwn ar gyfer aelodau bob blwyddyn erbyn **5 Hydref.**

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn rhoi unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i gyflogwyr i sicrhau fod y Gronfa Bensiwn yn gweithredu'n briodol.

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod y broses ymddeol mor effeithlon â phosibl i'r aelod a'r cyflogwr fel ei gilydd.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn gyfrifol am arfer y pwerau dewisol a roddwyd iddi gan y rheoliadau. Hefyd, mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn gyfrifol am gyhoeddi ei pholisi i'w holl aelodau yn achos yr elfennau dewisol allweddol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn anelu at ddarparu gwasanaeth i'r aelodau sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 2013.

O dan Ddeddf Diogelu Data 2018, bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn gochel rhag datgelu'n amhriodol unrhyw wybodaeth am aelod. Caiff unrhyw wybodaeth a gedwir gan Gronfa Bensiwn Dyfed ei defnyddio ganddi ar gyfer gweithredu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Taliadau'r Awdurdodau Cyflogi i Gronfa Bensiwn Dyfed

Bydd awdurdodau cyflogi yn gwneud yr holl daliadau sy'n angenrheidiol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn brydlon i Gronfa Bensiwn Dyfed a/neu i'r darparwr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol fel y bo'n briodol.

### Dyddiadau Talu

Yn achos awdurdodau cyflogi sy'n cyfrannu bob mis, gallant dalu cyfraniadau ar unrhyw adeg ond y dyddiad hwyraf yw'r 19eg o'r mis yn union ar ôl y mis y gwnaed y didyniadau. Er enghraifft rhaid i Gronfa Bensiwn Dyfed fod wedi derbyn cyfraniadau a ddidynnwyd ym mis Ebrill erbyn 19eg Mai fan hwyraf. Os bydd y 19eg ar benwythnos neu Ŵyl Banc, bydd y cyfraniadau'n ddyledus ar y diwrnod gwaith olaf cyn y 19eg.

Yn achos awdurdodau sy'n cyfrannu'n chwarterol, gallant hwythau hefyd dalu cyfraniadau ar unrhyw adeg ar yr un egwyddor ag uchod, ond ni chânt wneud cyfraniadau ddim hwyrach na'r 19eg ar y trydydd mis, oni bai fod y 19eg ar benwythnos neu Ŵyl Banc, pan fydd y cyfraniadau'n ddyledus ar y diwrnod gwaith olaf cyn y 19eg.

### Taliadau Hwyr

Mae taliad hwyr yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr Torri Amodau sy'n cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Pensiynau. Os yw'r achos hwn yn un o dorcyfraith perthnasol, caiff y cyflogwr ei riportio i'r Rheoleiddiwr Pensiynau os bydd y cyfraniadau'n hwyr yn dod i law, yn unol â chod ymarfer y rheoleiddwyr.

### Y Dull Talu

Dylid talu cyfraniadau (ac eithrio'r Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) i Gronfa Bensiwn Dyfed bob mis/chwarter drwy gyfrwng siec a honno'n daladwy i **Cyngor Sir Caerfyrddin** neu'n uniongyrchol i gyfrif banc yr awdurdod trwy drosglwyddiad BACS.

### Hysbysiadau Talu

Rhaid i'r cyflogwr gyflwyno slip hysbysu gyda'i dâl yn nodi'r mis a'r swm, a bydd yr hysbysiad yn dangos cyfraniadau'r Gweithwyr a chyfraniadau'r Cyflogwr ar wahân.

## Llog ar daliadau hwyr

Gall y Gronfa ddewis codi llog os telir yn hwyr gyfraniadau a dderbynnir, yn unol â Rheoliadau CPLlL. Codir llog ar unrhyw swm y bydd awdurdod cyflogi dros fis yn hwyr yn ei dalu.

Caiff y llog ei gyfrif ar 1% uwchlaw'r gyfradd sylfaenol am bob dydd o'r dyddiad y bydd yn ddyledus hyd at y dyddiad talu, a chodir llog cyfansawdd bob tri mis. Fodd bynnag, gall y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol benderfynu hepgor neu oedi amseriad y tâl hwn.

## Sylwer

Bydd y cyflogwr yn talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i'r Darparwr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol perthnasol cyn pen **un wythnos** wedi iddynt gael eu didynnu.

# Costau ychwanegol sy'n deillio o lefel perfformiad yr Awdurdod Cyflogi

Lle bydd angen i Gronfa Bensiwn Dyfed dalu costau ychwanegol oherwydd lefel perfformiad yr awdurdod cyflogi wrth gyflawni'i ddyletswyddau o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, caiff y costau ychwanegol eu hawlio'n ôl oddi wrth yr awdurdod cyflogi hwnnw.

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cyflogi yn nodi'r canlynol:

- y rhesymau am y costau ychwanegol y bu'n rhaid eu talu;
- y dylai'r awdurdod cyflogi dalu'r costau ychwanegol a ddeilliodd o lefel perfformiad yr awdurdod hwnnw;
- y sail ar gyfer cyfrif y swm dan sylw;
- darpariaethau perthnasol y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau sy'n sail dros y costau ychwanegol.

# Cyfraddau Cyfraniadau'r Cyflogwyr a'r Costau Gweinyddol

Nid yw cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog. Mae'n ofynnol i gyflogwyr dalu pa swm bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gyfran o'r gronfa sy'n ymwneud â'u sefydliad hwy yn ddigon i dalu'r rhwymedigaethau.

Bob tair blynedd caiff Cronfa Bensiwn Dyfed ei phrisio gan actiwari'r Gronfa. Bydd yr actiwari yn ystyried asedau a rhwymedigaethau pob cyflogwr, ac yn asesu'r gyfradd gyfraniadau briodol y bydd gofyn i bob cyflogwr ei thalu am y **tair blynedd** ddilynol.

Caiff costau gweinyddu'r cynllun eu codi'n uniongyrchol ar Gronfa Bensiwn Dyfed, a bydd yr actiwari yn cymryd y costau hyn i ystyriaeth wrth asesu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr.

Os bydd cyflogwr yn dymuno bod Cronfa Bensiwn Dyfed yn gwneud gwaith nad yw'n ymwneud â gweinyddu'r gronfa, codir tâl arno'n uniongyrchol am y gwaith hwnnw.

## Adolygu'r Strategaeth

Cymeradwywyd y fersiwn hon gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2025. Bydd yn cael ei hadolygu'n ffurfiol a'i diweddaru o leiaf bob tair blynedd, neu'n gynt os bydd angen ystyried trefniadau rheoli gweinyddol neu faterion eraill sydd ynddi, gan gynnwys os oes unrhyw newidiadau i'r CPLlL neu Reoliadau neu Ganllawiau perthnasol eraill y mae angen eu hystyried.

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn adolygu'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau cyflogi ac unrhyw bersonau priodol eraill os bydd newid sylweddol yn unrhyw bolisi a gynhwysir yn y strategaeth. Caiff y Strategaeth ei chyhoeddi ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed a rhoir copi i bob Awdurdod Cyflogi.

Os caiff y strategaeth ei diweddaru yn dilyn adolygiad, rhoddir gwybod i bob Awdurdod Cyflogi, a chyhoeddir copi diwygiedig ohoni ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.

Mae croeso i gyflogwyr drafod y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau neu unrhyw fater arall gyda Chronfa Bensiwn Dyfed unrhyw bryd.

## Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

| | |
|---|---|
| Drwy'r post: | Cronfa Bensiwn Dyfed<br>Neuadd y Sir<br>Caerfyrddin<br>SA31 1JP |
| Drwy e-bostio: | pensiynau@sirgar.gov.uk |
| Dros y ffôn: | 01267 224 893 |
| gwefan | www.cronfabensiwndyfed.org.uk |